Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

# Plant a Phobl Ifanc

## Strategaeth ar Blismona sy'n canolbwyntio ar Blant yng Ngogledd Cymru

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Ionawr 2019

# Rhagair gan y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am sicrhau gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon yng Ngogledd Cymru tra mae'r Heddlu'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau plismona i'n cymunedau. Mae'r Comisiynydd yn cynnal ymgynghoriad ac ymgysylltiad helaeth gyda'r cyhoedd, partneriaid allweddol a'r Prif Gwnstabl cyn sefydlu blaenoriaethau plismona. Mae'r Comisiynydd yn gosod y rhain yn ei Gynllun Heddlu a Throsedd ac mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i fodloni'r blaenoriaethau hynny.

Fel Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd rwyf yn falch o gynorthwyo'r Comisiynydd yn ei waith er mwyn sicrhau gwasanaeth heddlu effeithlon ac effeithiol i holl bobl Gogledd Cymru.

Rwyf wedi ymroi fy holl yrfa broffesiynol i weithio gyda phlant a phobl ifanc. Rwyf wedi treulio 33 o flynyddoedd yn gweithio gyda'r mwyaf bregus yn ein cymdeithas. Rwyf yn awyddus i ddefnyddio fy safle fel Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc.

Mae'r Comisiynydd, Arfon Jones, yn sôn yn ei **Gynllun Heddlu a Throsedd 2017-2021** am ei ymroddiad i gadw ein plant a'n pobl ifanc yn ddiogel a chaniatáu iddynt arwain bywydau iach, cyfrifol a chadarnhaol. Er mwyn cyflawni hyn rhaid i ni ddeall y materion allweddol sy'n wynebu plant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru heddiw.

O gamdriniaeth ac esgeulustod i ddiogelwch ffordd, troseddau seiber ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae ystod enfawr a materion diogelwch sy'n effeithio ar bobl ifanc mewn ffordd sylweddol. Dyna pam mae'n bwysig deall natur materion o'r fath a sut mae'r Heddlu'n ymdrin â nhw. Rydym angen gwybod pa droseddau sy'n effeithio pobl ifanc a'n sicrhau eu bod yn derbyn ymateb priodol gan Heddlu Gogledd Cymru.

BMae angen i'r Heddlu a'r Comisiynydd weithio'n agos gyda phartneriaid statudol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i



blant ledled Gogledd Cymru. Ni all y gwaith hwn gael ei wneud gan un sefydliad ar ei ben ei hun.

Rhaid i ni ymgysylltu ac ymgynghori'n benodol gyda phlant a phobl ifanc yn barhaol er mwyn adlewyrchu eu safbwyntiau wrth siapio plismona ar gyfer y dyfodol. Rhaid i ni hefyd adborthi sut yr ystyriwyd eu cyfraniadau.

Rydym yn atebol i blant am benderfyniadau a chanlyniadau sy'n effeithio eu bywydau.

Mae dros 160,000 o blant a phobl ifanc o fewn poblogaeth Gogledd Cymru, o ystod eang o gefndiroedd gwahanol, sydd yn adlewyrchu gwahanol ddiwylliannau a phrofiadau bywyd. Mae'n hanfodol felly fod gwasanaethau plismona yn adlewyrchu eu anghenion ac yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n cynorthwyo, diogelu ac annog rhyngweithio cadarnhaol.

Mae'r strategaeth hon yn arddangos ein dyhead a'n hymroddiad i gynnal a gwella gwasanaethau plismona i blant. Drwy wrando ar blant a phobl ifanc a gweithio gyda'r Heddlu, gallwn sicrhau y bydd plant yn derbyn y gorau oll mewn gwasanaethau plismona.

**Ann Griffith**
**Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

# Cynnwys

**Introduction** .......... 4

- Beth ydym eisiau ei gyflawni? .......... 5

**Cyfranogiad** .......... 6

- Ymgysylltu a Chyfathrebu .......... 6
- Cadetiaid Heddlu Gogledd Cymru .......... 7

**Gwarchodaeth** .......... 8

- Diogelu .......... 8

**Darpariaeth** .......... 9

- Lleihau Troseddoli .......... 9
    - Plismona Cymdogaethau .......... 9
    - Plant mewn Gofal .......... 9
    - Plant a Effeithir gan Rieni yn y Carchar .......... 9
    - Rheolaeth Achosion Uwch Cyfiawnder Ieuenctid .......... 10
- Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod .......... 10
- Plant ac Iechyd Meddwl .......... 11
- Llinellau Cyffuriau .......... 11
- Stopio a Chwilio .......... 12
- Plant yn Nalfeydd yr Heddlu .......... 12
- Defnyddio Grym .......... 13
- Cwynion .......... 13

**Perfformiad** .......... 14

- Canlyniadau .......... 14
- Darpariaeth .......... 14

# Cyflwyniad

Mae anghenion, hawliau a llesiant holl blant a phobl ifanc yn hynod bwysig o fewn y byd plismona. Amlinellir yr hawliau hyn yn glir o fewn egwyddorion **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**[1] a Mesur Hawliau Plant ac Unigolion Ifanc (Cymru) 2011 **Llywodraeth Cymru**.

Wrth sefydlu'r Strategaeth hon mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ymgymryd i gadw hawliau'r Confensiwn. Wrth blismona yng Ngogledd Cymru gwnawn geisio gwarchod plant rhag niwed, cynorthwyo dioddefwyr ifanc a thystion ac anelu i leihau erledigaeth dro ar ôl tro. Yn ychwanegol at hyn gwnawn weithio gyda phartneriaid i wella canlyniadau ar gyfer troseddwyr ifanc, er mwyn eu cynorthwyo i symud i ffwrdd o droseddoldeb. Anelwn i gadw'n pobl ifanc yn ddiogel a chaniatáu iddynt arwain bywydau iach, cyfrifol a chadarnhaol mewn hinsawdd y gallent gyfrannu a ffynnu.

Mae'r strategaeth hon yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar broblemau troseddau ac anrhefn sy'n effeithio'n benodol ar blant a phobl ifanc ac ar y gwasanaeth plismona maent yn ei dderbyn.

Fel rhan o'n dyletswyddau statudol i ymgysylltu gyda chymunedau Gogledd Cymru, rydym yn ymgymryd i sicrhau fod gan blant a phobl ifanc lais. Gwnawn ymgysylltu â nhw a gwrando arnynt. Mae'n bwysig ein bod yn ystyried eu safbwyntiau wrth ddwyn yr Heddlu'n atebol am wasanaethau plismona yng Ngogledd Cymru.

Mae'r math o broblemau troseddau a diogelwch personol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc fel dioddefwyr, troseddwyr ac hefyd fel tystion, yn amrywiol iawn. Yr her i Heddlu Gogledd Cymru yw sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r materion hyn ac yn gweithio gyda'r bobl ifanc mewn cymunedau yng Ngogledd Cymru i ymdrin â nhw'n effeithiol.




Dros amser gall y problemau sy'n ymwneud â throseddau newid a datblygu. Mae gofyn felly i'r heddlu fod yn ymwybodol o ddynamig newidiol troseddau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc a bod yn ddigon addasadwy i ymdrin a nhw'n effeithiol er budd holl blant a phobl ifanc Gogledd Cymru.

[1] (Y Confensiwn 1989. Mewn grym ers 1990. Monitrir gweithredu'r Confensiwn gan y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn.)

## Beth ydym eisiau ei gyflawni?

Rydym eisiau dioddefwyr ifanc fedru cydnabod y ffaith eu bod yn ddioddefwyr trosedd a theimlo digon hyderus i riportio’r drosedd i'r heddlu. Pan mae pobl yn riportio trosedd mae'n caniatáu’r heddlu i gael dealltwriaeth glir o'r materion sy'n effeithio ein cymunedau a felly'n caniatáu iddynt ymdrin ag ef yn effeithiol. Mae hysbysu cynyddol yn arddangos gwell hyder yn yr heddlu. Fodd bynnag, rydym hefyd eisiau gweld lleihad yn y nifer o ddioddefwyr ifanc yn gyffredinol.

Ein nôd yw:-

1. **Gwell hyder ymysg plant a phobl ifanc yn Heddlu Gogledd Cymru gan arwain at**
    - Gwell perthynas rhwng yr heddlu a phobl ifanc
    - Parodrwydd plant a phobl ifanc i riportio troseddau
2. **Reduced number of young people being drawn into the criminal justice system.**

Bydd mesur llwyddiant yn heriol gan nad yw mesur a deall lefelau hyder yn wyddonol fanwl. Fodd bynnag, gwnawn ddefnyddio nifer o ddulliau i'n cynorthwyo i fesur barn, fel cynnal arolwg a chynnal ymgysylltiad rheolaidd i roi dangosyddion i ni ynghylch hyder ac ymddiriedaeth mewn gwasanaethau plismona. Rydym hefyd eisiau gweld llai o bobl ifanc yn cael eu tynnu i'r system cyfiawnder troseddol. Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw Cadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru. Gwnawn weithio gyda’n partneriaid cyfiawnder troseddol er mwyn ystyried ffyrdd y gall partneriaid cyfiawnder troseddol a'r gymuned ehangach chwarae'u rhan i leihau'r nifer o bobl ifanc sy'n cyflawni troseddau ac yn cael eu tynnu i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.



# Cyfranogiad, Gwarchodaeth a Darpariaeth

Tri o bileri tanategol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yw ymdrin â Chyfranogiad, Gwarchodaeth a Darpariaeth. Mae'r prif feysydd cyflawni rydym wedi'i nodi ar gyfer ein gwaith yn syrthio o dan y tri phennawd hyn.

## Cyfranogiad

### Ymgysylltu a Chyfathrebu

Rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd:

- Ymgynghori ac ymgysylltu gyda phobl ifanc am droseddau
- Craffu'r Heddlu ar eu darpariaeth o wasanaethau plismona i bobl ifanc
- Craffu ymgysylltiad yr heddlu gyda phobl ifanc

Mae gan yr Heddlu a'r Comisiynydd ddyletswyddau statudol i ymgysylltu â'r cyhoedd. Rhaid i blismona modern effeithiol gael ei ddarparu gyda chaniatâd y cyhoedd. Mae hynny'n cynnwys caniatâd ein pobl ifanc. Mae felly'n hanfodol fod yr Heddlu a'r Comisiynydd yn creu a chynnal perthynas gadarnhaol gyda phobl ifanc yn y gymuned.

Rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ymgynghori ac ymgysylltu gyda phobl ifanc am droseddau a'r ffordd maent yn derbyn gwasanaethau plismona. Rhaid i'r Comisiynydd hefyd fod yn fodlon fod plant a phobl ifanc Gogledd Cymru yn derbyn gwasanaeth plismona sy'n deg, rhesymol a chymesur.

Yn ychwanegol at gynnal gweithgarwch ymgysylltu gyda phobl ifanc, bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cynnal nifer o weithgarwch craffu er mwyn sicrhau fod Heddlu Gogledd Cymru yn cynnal perthynas dda gyda phobl ifanc.

Gwnawn herio'r Heddlu, drwy graffu ar sut mae’r gwasanaeth plismona lleol yn ymgysylltu, i arddangos eu gweithgarwch gweithredol gyda phobl ifanc a sut maent wedi ceisio eu barn ac wedi rhyngweithio gyda phobl ifanc.

Mae plismona lleol yn un o'r meysydd plismona pwysicaf er mwyn ymgysylltu gyda phobl ifanc. Dyna pam mae’n hanfodol ein bod yn craffu y gweithgarwch hwn. Mae craffu’r ymgysylltiad hwn hefyd yn ymestyn at dderbyn adborth ar gyflwyno'r rhaglen cyswllt ysgolion.

Gwnaiff Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh) gynnal ei ymgysylltiad ei hun gyda phobl ifanc. Gwnawn sicrhau fod yr ymgysylltiad hwn yn cynnwys y rhai hynny sydd â phrofiad uniongyrchol o'r system cyfiawnder troseddol. Bydd yr holl ymgysylltu a gynhelir gan SCHTh yn cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.

Mae'r Cynllun Gweithredu'n manylu'r gweithgarwch a wnaiff sicrhau y clywir llais y plentyn o ran plismona yng Ngogledd Cymru.

## Cadetiaid Heddlu Gogledd Cymru

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn gweithredu cynllun Cadetiaid Gwirfoddol yr Heddlu (CGH). Mae'r cynllun hwn wedi bod yn rhedeg ers 2015 a mae'n wahanol iawn i gynlluniau cadetiaid a redwyd yn flaenorol gan yr Heddlu. Mae'n rhaglen ddwy flynedd. Mae ar gael i'r rhai hynny sydd rhwng 13-18 oed ledled Gogledd Cymru. Fodd bynnag, yn wahanol i gynlluniau blaenorol, nid ei fwriad yw bod yn adnodd recriwtio i'r gwasanaeth heddlu. Yn hytrach mae ganddo bwyslais ar ymgysylltu gyda phobl ifanc bregus yn y gymuned. Mae'n rhoi cyfle i'r cadetiaid gyfranogi'n gadarnhaol yn eu cymunedau.

Amcanion y rhaglen cenedlaethol yw:

- Hyrwyddo dealltwriaeth ymarferol o blismona ymysg pobl ifanc,
- Annog ysbryd antur a dinasyddiaeth dda,
- Cynorthwyo blaenoriaethau plismona lleol drwy wirfoddoli a rhoi cyfle i bobl ifanc gael eu clywed ac
- Ysbrydoli pobl ifanc i gyfranogi'n gadarnhaol yn eu cymunedau.



Ar hyn o bryd mae chwe uned cadetiaid yn gweithredu ledled Gogledd Cymru mewn chwech o'r deg ardal blismona leol. Arweinir rhain gan Wirfoddolwyr Cymorth yr Heddlu mewn colegau addysg bellach.

Cryfder gwirioneddol y rhaglen yw ei fod yn cynorthwyo'r heddlu i ddeall y problemau a wyneba pobl ifanc. Mae hyn yn ei dro yn cynorthwyo'r heddlu i gyflwyno gwell gwasanaeth.

# Gwarchodaeth

Datblygwyd amcanion y Cynllun Heddlu a Throsedd mewn ymateb i'r meysydd o fygythiad, risg a'r niwed mwyaf y mae cymunedau Gogledd Cymru yn eu hwynebu. Mae'r rhestr isod yn tynnu sylw at feysydd sy'n effeithio ar ein plant a phobl ifanc mwyaf bregus.

Materion Diogelu

- Pobl ifanc mewn perygl o gamdriniaeth rywiol, camdriniaeth gorfforol ac esgeulustod yn y cartref.
- Plant a phobl ifanc sydd wedi gweld camdriniaeth ddomestig yn y cartref.
- Cydnabod ac ymdrin â chamdriniaeth rywiol ar blant gan gynnwys cam-fanteisio'n rhywiol.
- Ymateb i blant ar goll (gyda ffocws penodol ar blant mewn gofal sy'n mynd ar goll).
- Diogelwch ffordd ar gyfer gyrwyr ifanc i leihau'r tebygolrwydd o ddamweiniau angheuol neu ddifrifol sy'n cynnwys pobl ifanc.
- Diogelu a chynorthwyo plant a effeithir gan Gaethwasiaeth Fodern ac yn dilyn y protocolau sydd mewn grym i ymdrin â hyn a phlant a fasnechir.
- Ymdrin â'r problemau o briodasau gorfodol ac anffurfio organau cenhedlu merched yng Ngogledd Cymru.
- Gwarchod yn erbyn a mynd i'r afael â radicaleiddio pobl ifanc.
- Ymdrin â throseddwyr troseddau casineb ifanc a throseddwyr posibl.



- Cynorthwyo dioddefwyr ifanc trosedd.
- Ymdrin â phobl ifanc gyda phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.
- Ymdrin â phlant a effeithir gan droseddau trefnedig gan gynnwys Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Llinellau Cyffuriau[2] a Chaethwasiaeth Fodern.

Mae'r rhain yn brif faterion nid yn unig i'r Heddlu o ran diogelu plant a phobl ifanc ond hefyd ar gyfer partneriaid statudol. Gwnaiff SCHTh edrych ar sut mae'r Heddlu'n gweithio effeithiol mewn partneriaeth, er enghraifft drwy Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru a phartneriaethau eraill i ymdrin â materion o'r fath.

Nid yw'r uchod yn rhestr hirfaith o faterion. Fodd bynnag mae'n tynnu sylw at rai o'r prif themâu sy'n syrthio o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd.

[2] Mae Llinellau Cyffuriau yn cyfeirio at gamfanteisio ar blant gan gangiau i gludo/cadw/dyrannu cyffuriau neu gyflawni troseddoleb arall mewn trefi gwledig neu arfordirol.

# Darpariaeth

## Lleihau Troseddoli

Mae ffyrdd gwahanol y gall Heddlu Gogledd Cymru gyfrannu at leihau troseddoli plant a phobl ifanc. Gall hyn fod drwy fabwysiadu polisïau penodol, newid agwedd weithredol neu weithio ynghyd â phartneriaid.

## Plismona Cymdogaethau

Mae rôl swyddogion cymunedol i atal aildroseddu yn bwysig iawn. Gwnawn fonitro gwaith Heddlu Gogledd Cymru i ymdrin â throseddu lefel isel gan bobl ifanc ac annog gweithgarwch tynnu sylw a chymunedol i'w cynorthwyo symud i ffwrdd o droseddu a/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol o'r fath.

## Plant mewn Gofal

Mae'r Comisiynydd yn bryderus ynghylch troseddoli plant yn ddiangen. Mae hyn yn benodol yn enwedig o ran plant mewn gofal gan eu bod yn cael eu gorgynrychioli yn y system cyfiawnder troseddol. Rydym felly wedi cytuno i gynorthwyo a monitro cyflwyno a defnyddio protocol i leihau troseddoldeb plant mewn gofal.

## Plant a Effeithir gan Rieni yn y Carchar

Mae canlyniadau ar gyfer plant a effeithir gan rieni yn y carchar yn aml yn llai ffafriol na'r rhai sydd ddim. Mae hyn yn benodol pan mae'n dod i'r tebygolrwydd y bydd y plant hynny yn mynd ymlaen i ddod yn droseddwyr eu hunain. I gymharu â'u cyfoedion, mae plant yn wynebu pwysau a chwalfa emosiynol sylweddol yn ystod cyfnod carchar aelod o'r teulu ac â mwy o debygolrwydd o ystod o ganlyniadau gwael, ac o wynebu bywydau tlawd a niweidiol.

Mae troseddu rhwng cenedlaethau yn broblem fawr: gwnaeth astudiaeth nodedig ddarganfod fod 65% o fechgyn a oedd gan dad yn y carchar yn mynd ymlaen i droseddu eu hunain. Mae carcharu mam hefyd â chanlyniadau parhaol i blant. Dim ond 5% o blant gyda mam yn y carchar sy'n parhau yn eu cartref eu hunain.

Mae teuluoedd, yn gyffredinol, yn fwy tebygol o brofi tlodi a dyled a theimlo wedi'u gwarthnodi yn eu cymunedau. Mae'r plant yn tueddu yn fwy ynysig mewn ysgolion. Mae hyn hefyd yn effeithio ar blant a theuluoedd sydd â rhiant neu aelod o'r teulu sydd yn rhywle arall yn y system cyfiawnder troseddol, nid dim ond yn y carchar.

Mae plant gyda rhiant yn y carchar:

- dwywaith mor debygol o brofi problemau ymddygiad ac iechyd meddwl;
- yn llai tebygol o wneud yn dda yn yr ysgol ac yn fwy tebygol o gael eu gwahardd;
- teirgwaith mwy tebygol o fod yn droseddwr neu'n dioddef trais domestig;
- pedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn gaeth i gyffuriau; ac
- yn costio deg gwaith yn fwy i'r pwrs cyhoeddus erbyn eu bod yn 28 oed

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cynnal ymchwil i'r mesurau mewn grym yng Ngogledd Cymru i gynorthwyo plant o'r fath. Mae hyn er mwyn gwella eu gallu a lleihau canlyniadau negyddol. Roedd yn glir yn dilyn yr ymchwil hwn nad oedd y fath gymorth ar gael. Yn dilyn gweithio cydweithredol gyda phartneriaid allweddol (drwy Fwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru) mae 2 rôl wedi'u creu. Bydd y rolau hyn yn gwneud gwahaniaeth i lawer o blant ledled Gogledd Cymru sydd efallai angen cymorth ond sydd ar hyn o bryd yn gudd o fewn y system. Mae'r agwedd bartneriaeth hon i ymdrin â'r broblem hon â'r gallu i ddod â mantais fawr i nifer o blant drwy'r rhanbarth sydd wedi eu heffeithio gan garchariad rhiant.

## Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru - Rheolaeth Achosion Uwch

Ers 2010 mae'r nifer o bobl ifanc sy'n dod i'r system cyfiawnder troseddol yng Ngogledd Cymru wedi lleihau'n sylweddol. Fodd bynnag, rhaid i ni ganolbwyntio ar y rhai hynny sy'n parhau o fewn y system a ceisio ymdrin â chyfraddau aildroseddu.

Mae gwaith yn cynyddu o fewn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru i ymdrin ag anghenion lluosog a chymhleth rhai pobl ifanc sy'n mynd i'r system cyfiawnder troseddol ac yn parhau yno gyda chyfraddau aildroseddu uchel. Mae'r dull Rheoli Achosion Uwch (Enhanced Case Management) wedi'i arbrofi mewn rhannau o Ogledd Cymru ac wedi profi llwyddiant cychwynnol. Mae'r agwedd hon yn targedu plant gydag o leiaf 25 o droseddau. Er mwyn deall a thargedu'r agwedd gywir i anghenion unigolyn ifanc, mae'r cynllun hwn yn dadansoddi eu gofynion o ran llesiant, cefndir (fel Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod), addysg, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

Mae gwerthusiad diweddar o’r dull hwn wedi dangos gostyngiad o aildroseddu yn y rhai hynny gydag anghenion cymhleth penodol. Mae'r Comisiynydd yn cynorthwyo prosiectau arloesol sy'n ceisio lleihau cyfraddau aildroseddu.



## Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACEs)

Mae corff cynyddol o ymchwil yn cydnabod y niwed tymor hir o ganlyniad i straen cronig a brofir yn ystod plentyndod. Mae esgeulustod, camdriniaeth ddomestig, trais rhywiol, alcohol a chamddefnyddio sylweddau o fewn y cartref yn ystod plentyndod yn enghreifftiau o Brofiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACEs). Mae pobl gyda mwy o gysylltiad ag ACEs yn fwy tebygol o ddatblygu niwed iechyd, ymddygiadau gwrthgymdeithasol a throseddol, yn enwedig yn ystod llencyndod. Mae tystiolaeth yn dangos fod pobl gyda 4 neu fwy o ACEs yn 14 gwaith mwy tebygol o fod yn ddioddefwr trais a 15 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cyflawni trosedd treisgar yn erbyn unigolyn arall.

Mae Heddlu Gogledd Cymru wrthi'n gweithio gyda phartneriaid i ymdrin ag effaith ACEs a'u atal rhag ddigwydd lle bo'n bosibl. Gall Heddlu Gogledd Cymru gynorthwyo i leihau effaith negyddol ACEs drwy anelu adnoddau priodol er mwyn eu atal rhag digwydd lle bo'n bosibl. Gellir gwneud hyn drwy weithio gyda'r bwrdd iechyd lleol, awdurdodau lleol, partneriaid cyfiawnder troseddol eraill ynghyd â Llywodraeth Cymru ac asiantaethau cenedlaethol eraill.

Mae awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn ymgymryd â llawer iawn o waith ymyrryd gyda theuluoedd gan gynnwys mentrau fel Tîm o Amgylch y Teulu. Ymhellach at hyn bydd y rhaglen ACE yn sicrhau dealltwriaeth gyfoethog o ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer ACEs ledled yr holl sefydliadau gan gynnwys y sector statudol, y sector preifat a'r trydydd sector. Bwriad y rhaglen yw sicrhau cysondeb a datblygu llwybrau cydweithredol, gan geisio atal, yn ogystal ag ymateb, a datrys problemau yn y pen draw.

Gwnaiff y rhaglen drawsnewid y ffordd y mae Heddlu Gogledd Cymru yn ymateb i ACEs. Bydd swyddogion yn derbyn hyfforddiant arbenigol gan gydlynwyr ACE ymroddedig. Bydd gwell dealltwriaeth o rwydweithiau er mwyn sicrhau gwell cymorth i randdeiliaid. Bydd cyd-ddealltwriaeth ac ymagwedd ar draws asiantaethau yn arfogi Heddlu Gogledd Cymru â gwell gwybodaeth a phrosesau er mwyn cefnogi teuluoedd.

## Plant ac Iechyd Meddwl

Mae gofyn yn aml i'r heddlu gynorthwyo pobl sydd mewn argyfwng iechyd meddwl. Pobl ifanc yn aml sy'n dioddef y mathau hyn o argyfyngau. Ni ellir tanbrisio pwysigrwydd ymdrin â phobl fregus yn briodol. Mae iechyd meddwl yn broblem iechyd ac ni ddylai'r rhai sy'n profi ei effeithiau gael eu gosod yn nalfa'r heddlu, yn enwedig plant. Mae Heddlu Gogledd Cymru felly'n gweithio'n agos â phartneriaid yn y gwasanaeth iechyd ac mewn awdurdodau lleol. Mae hyn er mwyn sicrhau fod pobl ifanc sy'n dioddef argyfwng iechyd meddwl, a sy'n dod i sylw'r heddlu, yn derbyn y gofal diogelaf a mwyaf priodol. Ni fydd hyn o reidrwydd yn troseddoli neu'n ychwanegu trawma pellach i ddigwyddiad sydd eisoes yn rhoi pwysau ar yr unigolyn.

## Llinellau Cyffuriau a Throseddau Trefnedig

Mynd i'r afael â throseddau trefnedig yw un o brif flaenoriaethau Heddlu Gogledd Cymru. Un o'r ffyrdd penodol y mae gangiau troseddau trefnedig yn effeithio ar bobl ifanc yw drwy'r gweithgarwch troseddol a adwaenir fel Llinellau Cyffuriau. Dyma le cam-fanteisir gangiau trefol ar blant lleol i gludo, storio, dyrannu neu gyflawni troseddoldeb arall mewn trefi gwledig neu arfordirol. Mae'r gangiau fel arfer wedi'u lleoli mewn dinasoedd mawr. Mae Heddlu Gogledd Cymru gyda chymorth partneriaid cenedlaethol fel yr Asiantaeth Droseddau Genedlaethol yn gweithio i ymdrin ac atal gallu gangiau i weithredu ledled Gogledd Cymru. Mae diogelu'r bobl ifanc a effeithir a sydd ynghlwm â'r troseddoldeb hwn yn bwysig iawn. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn derbyn nawdd drwy Gronfa Drawsnewid y Llywodraeth i warchod pobl ifanc a mynd i'r afael â gweithgarwch Llinellau Cyffuriau yng Ngogledd Cymru.



## Stopio a Chwilio

Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig [2016] wedi dweud fod hawliau plant i breifatrwydd yn golygu fod rhaid i Stopio a Chwilio cael ei ddefnyddio'n gymesur, gan ystyried oed ac aeddfedrwydd y plentyn a heb wahaniaethu. Nododd hefyd y dylid cael gwell dulliau o goladu a chyhoeddi data ar stopio a chwilio er mwyn helpu i fonitro ei ddefnydd ar blant.

Mae ffigyrau stopio a chwilio yng Ngogledd Cymru yn parhau i ddangos rhifau uchel sylweddol o stopio pobl ifanc (rhai hynny o dan 25 oed) nag ar gyfer pob categori oedran arall. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn aelod o'r Cynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio cenedlaethol. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar Fwrdd Cyfarfyddiadau Cyhoeddus yr Heddlu (a adwaenid yn flaenorol fel y Bwrdd Stopio a Chwilio). Byddwn yn parhau i graffu ar yr heddlu a'u herio ynghylch eu defnydd o rymoedd stopio a chwilio mewn perthynas â phobl ifanc.

## Plant yn Nalfeydd yr Heddlu

Mae'n bwysig fod Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol gyda phartneriaid i osgoi defnyddio'r ddalfa i blant.

Mae'n hollbwysig fod y broses gywir ar gyfer ymdrin â phlant a phobl ifanc yn gweithredu'n effeithlon a phriodol os oes angen dalfa. Pan ddaw plant a phobl ifanc i ddalfa'r heddlu mae nifer o fesurau mewn lle er mwyn sicrhau triniaeth ddiogel a phriodol o garcharorion. Mae hyn yn cynnwys gwirio oedolion priodol.

Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ddyletswydd i fonitro prosesau dalfa a dwyn Heddlu Gogledd Cymru yn atebol o ran hyn. Mae'r swyddfa'n recriwtio, hyfforddi a goruchwylio nifer o ymwelwyr dalfa gwirfoddol. Eu rôl yw ymweld â swîts dalfa ledled Gogledd Cymru.



Maent yn sicrhau y bodlonir anghenion llesiant carcharorion ac y dilynir proses briodol. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd hefyd yn derbyn adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd Gweithredol Strategol gan yr Heddlu ar ddefnyddio'r ddalfa ar gyfer plant a phobl ifanc. Cyhoeddir yr adroddiadau hyn wedyn ar wefan y Comisiynydd.

## Defnyddio Grym

Ystyrir y defnydd o rym yn erbyn plant a phobl ifanc yn y ddalfa gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd o fewn adroddiadau i'w Fwrdd Gweithredol Strategol. Yn ychwanegol, mae defnyddio grym hefyd yn rhan o'r ymarfer samplo ffeiliau cwynion ar hap yn rheolaidd.

## Cwynion

Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gwyno os ydynt yn anhapus ynghylch y ffordd y maent wedi'u trin gan yr heddlu.  Yn aml nid yw plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'u hawl i wneud cwyn am wasanaethau plismona.  Gwnawn hyrwyddo eu hawl i gwyno.

Fel rhan o'n harchwiliad i safonau proffesiynol, gwnawn fynd ati i fonitro cwynion gan blant a phobl ifanc.



# Cyflawniad

## Canlyniadau

Ni ellir mesur y canlyniadau a geisiwn i gyflawni yn hawdd. Bydd angen i ni felly ddarganfod ffyrdd arloesol i arddangos llwyddiant y gwaith.

Gwnawn ystyried tystiolaeth a dangosyddion sy'n cyfeirio at y canlynol:-

1. **Gwell hyder ymysg plant a phobl ifanc yn Heddlu Gogledd Cymru gan arwain at**
    - Gwell perthynas rhwng yr heddlu a phobl ifanc
    - Parodrwydd plant a phobl ifanc i hysbysu'r heddlu am drosedd

2. **Llai o bobl ifanc yn cael eu tynnu i'r system cyfiawnder troseddol**

Prif gyfrwng craffu'r Comisiynydd yw'r **Bwrdd Gweithredol Strategol** sy'n cyfarfod oddeutu bob 8 wythnos i ddadansoddi perfformiad heddlu Gogledd Cymru yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throsedd ac edrych yn gyffredinol ar gyflawniad Heddlu Gogledd Cymru. Bydd angen diweddariad cyson ar faterion a nodwyd ar gyfer craffu o fewn y Strategaeth Plant hon o bryd i'w gilydd gan yr Heddlu ar gyfer y cyfarfod hwn.




## Cyflwyno

Mae cynllun gweithredu ar y cyd sy'n cynorthwyo'r gwaith hwn wedi'i greu gyda'r Heddlu.